Hyfforddiant diogelu cartrefi gofal: gwybodaeth gefndirol

Mae hyfforddiant Diogelu Oedolion Sylfaenol Age Cymru yn sesiwn hyfforddiant gorfodol a gyflwynir i bob gwirfoddolwr.  Mae'n bosib darparu'r hyfforddiant yn rhithiol dros Zoom.

Cyfrifoldeb staff a gwirfoddolwyr yw diogelu; Mae'n ddyletswydd ar bawb i gadw oedolion sydd angen gofal a chymorth yn ddiogel rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Mae'r sesiwn ryngweithiol hon yn sicrhau bod pob aelod o Staff a Gwirfoddolwyr yn teimlo'n hyderus ac yn cael eu cefnogi gan reolwyr llinell a diogelu, pe bai angen iddynt ymateb i unrhyw bryderon diogelu neu ddatgeliadau tra'u bod yn cyflawni eu rôl.

Lle diogel a chyfrinachol i gyfranogwyr drafod a meithrin dealltwriaeth glir o ddiogelu

Cwmpasu polisi a gweithdrefnau sefydliadau gan gynnwys

- Beth yw diogelu
- Egwyddorion diogelu
- Hawliau dynol
- Beth yw camdriniaeth a mathau o gamdriniaeth
- Yr effaith bystander a chadw'n dawel
- Gweithdrefnau Age Cymru wrth ymateb i ddatgeliadau camdriniaeth a phryderon ynghylch diogelu

Adborth

"Mae hon yn sesiwn ddwys gyda llawer o wybodaeth, ond gwnaeth yr hyfforddwr yn siŵr ein bod yn iawn.  Roedd yn gwirio a oedd gennym unrhyw gwestiynau, ac yn sicrhau ein bod yn chwarae rhan weithredol o'r sesiwn"

"Eglur iawn, addysgiadol a hynod o ddefnyddiol. Hefyd, fe greodd yr hyfforddwr amgylchedd croesawgar, er bod yr hyfforddiant ar-lein." "Roedd fy ngwybodaeth a fy nealltwriaeth ar ôl y sesiwn hyfforddi wedi gwella'n fawr. Darparodd yr hyfforddwr sesiwn sy'n procio'r meddwl ar Ddiogelu. Cyflwynwyd yr wybodaeth yn glir, gyda phwynt pŵer perthnasol.

---

Age Cymru is a registered charity 1128436. Company limited by guarantee and registered in Wales and England 6837284.
Registered office address Ground Floor, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Cardiff CF24 5TD. © Age Cymru 2023